FRÂN WEN




# CYNHYRCHYDD

CYFLOG: £30,000 - £35,000
DYDDIAD CAU: 11 RHAGFYR 2023
CYTUNDEB: PARHAOL

# PECYN SWYDD

# AILDDIFFINIO'R DYFODOL. UN SIOE AR Y TRO.



# CYNHYRCHYDD

O sioe safle benodol ym Maes B i sioe gerdd fwyaf yr iaith Gymraeg hyd yma - mae Frân Wen yn cynhyrchu gwaith amlddisgyblaethol uchelgeisiol sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd uchel.

Rydym yn cyd-weithio ag oddeutu 180 o artistiaid y flwyddyn, yn creu hyd at 7 sioe y flwyddyn, ac yn cyrraedd dros 15,000 o gynulleidfaoedd y flwyddyn.

Mae hon yn rôl newydd yn Frân Wen, ac yn gyfle unigryw i weithio mewn amgylchedd cyflym ac egnïol gan greu cynyrchiadau uchelgeisiol ar y cyd â rhai o artistiaid mwyaf cyffrous Cymru a'n pobl ifanc, a'u teithio led-led Cymru a thu hwnt.

Rydym yn angerddol am wthio ffiniau 'theatr' gan gofleidio arfer amlddisgyblaethol Cymru a datblygu celfyddydau Cymru ar gyfer yr 21ain ganrif.

Bydd y cynhyrchydd yn cydweithio'n agos â'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol ac yn chwarae rhan allweddol wrth wireddu rhaglen artistig Frân Wen gan sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno gydag uchelgais, gonestrwydd a safon.









# 31,702

**Rydym wedi ymgysylltu â 31,702 o bobl drwy ein rhaglen ymgysylltu yn y 3 mlynedd diwethaf.**



# 38,021

**o bobl wedi gweld ein gwaith yn y 3 mlynedd diwethaf.**



# LLYWODRAETHIANT

Mae Frân Wen yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig.

Mae'r cwmni yn cael ei arwain gan fwrdd o ymddiriedolwyr gwirfoddol sy'n cynnwys 11 o unigolion proffesiynol gyda phrofiadau eang.

Mae ein Panel Ymgynghorol Ifanc yn sicrhau llais a dylanwad pobl ifanc ar bob agwedd o waith y cwmni gan chwarae rhan allweddol mewn trafodaethau artistig a strategol.

Mae Frân Wen yn gwmni bychan o staff ymroddedig sy'n cydweithio'n agos i gyflawni amcanion y cwmni.

Mae'r staff presennol yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Artistig: | Gethin Evans |
| Cyfarwyddwr Gweithredol: | Nia Jones |
| Rheolwr Marchnata: | Carl Russell Owen |
| Rheolwr Cynhyrchu: | Lewis Williams |
| Swyddog Gweinyddol: | Olwen Williams |
| Cyfarwyddwr Cymunedol: | Elis Pari |

Cyflogir oddeutu 180 o artistiaid yn flynyddol i wireddu'r rhaglen artistig.

# CHI

Rydym yn chwilio am gynhyrchydd uchelgeisiol a threfnus i ymuno â ni i gyflwyno rhaglen artistig gyffrous.

**OES GENNYCH CHI...**

- Edmygedd tuag at weledigaeth a gwaith Frân Wen ac angerdd i chwarae rhan allweddol yn siapio a sicrhau llwyddiant y cwmni.
- Profiad o weithio mewn cwmni cynhyrchu neu leoliad celfyddydol.
- Profiad o weithio'n uniongyrchol gyda thimau creadigol a gweinyddu prosesau artistig.
- Profiad o negydu a dealltwriaeth o brosesau cytundebu.
- Sgiliau cyllid da gan gynnwys rheoli cyllidebau.
- Profiad neu ddealltwriaeth o deithio cynyrchiadau / prosiectau.
- Sgiliau cynllunio ardderchog gyda'r gallu i weithio'n hyblyg, i flaenoriaethu a chyrraedd targedau.
- Y gallu i gydweithio a sefydlu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac allanol.
- Sgiliau cyfathrebu clir ac argyhoeddiedigar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg.*
- Profiad o reoli tîm.
- Ymrwymiad gwirioneddol i gynnal ac ehangu amrywiaeth diwylliannol a mynediad ar draws holl waith Frân Wen.
- Agwedd gadarnhaol a lefel uchel o hunan gymhelliant a'r gallu i weithio'n annibynnol.

**Rydym yn croesawu ceisiadau gan siaradwyr newydd Cymraeg a gallwn darparu hyfforddiant i'ch cefnogi i ymgymryd â gofynion y swydd.*

**DISGWYLIWN I'R CANLYNOL FOD YN BWYSIG I CHI:**

- Theatr iaith Gymraeg sy'n flaengar a pherthnasol ac sy'n gwthio ffiniau a disgwyliadau'r gynulleidfa.
- Meithrin talent ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o artistiaid.
- Ehangu mynediad i'r celfyddydau drwy annog mwy i gymryd rhan.
- Cynhwysiant a chydraddoldeb.
- Cynaliadwyedd amgylcheddol.
- Hunaniaeth y Gymru gyfoes.



# SWYDD DDISGRIFIAD

Bydd y Cynhyrchydd yn gyfrifol am gynhyrchu pob agwedd o raglen artistig y cwmni gan gydweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol.





## CYNLLUNIO STRATEGOL

- Rheoli agweddau cynhyrchu’r cwmni o ddydd i ddydd – gan gefnogi’r Cyfarwyddwr Artistig a’r Cyfarwyddwr Gweithredol i sicrhau bod holl waith Frân Wen yn cael ei gynhyrchu a’i gyflwyno gyda gwerthoedd cynhyrchu o ansawdd uchel ac o dan yr amgylchiadau gorau posib.
- Rheoli perthnasoedd â chyd-gynhyrchwyr, partneriaid prosiect a gweithio gyda’r Cyfarwyddwr Gweithredol ar negydu cytundebau gyda chwmnïau, lleoliadau, penodiadau creadigol, comisiynau awduron (lle bo’n briodol) ac ymgysylltu ag actorion.
- Gweithio gyda’r Cyfarwyddwr Artistig a’r Rheolwr Cynhyrchu i lunio cynlluniau prosiect blynyddol a hir dymor.
- Cyd-gysylltu â’r Cyfarwyddwr Artistig ac mewn cydweithrediad â Swyddog Gweinyddol Frân Wen i reoli castio ar gyfer cynyrchiadau.
- Mewn cydweithrediad â Rheolwr Cynhyrchu'r cwmni llunio amserlenni ymarfer, cynhyrchu a pherfformio ar gyfer gynyrchiadau a phrosiectau’r cwmni.
- Mewn cydweithrediad â’r Cyfarwyddwr Gweithredol, llunio cyllidebau ar gyfer cynyrchiadau unigol ac ar draws pob tymor.

- Fel aelod o'r uwch dîm bydd y Cynhyrchydd yn cyfrannu arbenigedd perthnasol at gynllunio busnes, strategaeth, datblygu brand a chynulleidfa yn ogystal â gwerthuso.

**CYNYRCHIADAU**

- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Artistig i adnabod aelodau priodol ar gyfer timau creadigol.
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol i gytundebu'r holl staff cynhyrchu llawrydd.
- Cefnogi'r Rheolwr Cynhyrchu i sicrhau bod gan y rhaglen y gefnogaeth dechnegol berthnasol.
- Bod yn berson cyswllt rhwng adrannau wrth reoli o ddydd i ddydd.
- Rheoli rhestr gwahoddiadau noson y wasg, ochr yn ochr â'r Rheolwr Marchnata.
- Ar y cyd gyda'r Rheolwr Cynhyrchu, monitro ac awdurdodi pob gwariant cynhyrchu perthnasol gan sicrhau nad oes gor-wario.
- Rheoli teithiau i gynnwys trefnu teithiau, cytundebu ac amserlennu.
- Mynychu a chyfrannu i gyfarfodydd rhaglennu a darllen sgriptiau sydd dan ystyriaeth.





- Cydweithio â'r Pennaeth Ymgysylltu i adnabod a hyrwyddo cyfleon ar gyfer ymgysylltu cymunedol o fewn y rhaglen proffesiynol y cwmni.
- Goruchwylio datblygiad a chynhyrchiad digwyddiadau ymgysylltu fel bo'r angen er mwyn annog aelodau o'r gymuned i brofi a bod yn rhan o waith Frân Wen.

## CYFFREDINOL

- Mynychu darlleniadau, rhaniadau, rhagddangosiadau a nosweithiau i'r wasg.
- Mynychu cyfarfodydd cwmni yn rheolaidd a chyfarfodydd gweithredol.
- Datblygu a gweithredu polisiau a gweithdrefnau gwyrdd.
- Mwyafu incwm a lleiafu gwariant lle bynnag fo hynny'n bosib, heb amddifadu safon y gwaith ac enw da'r cwmni.
- Gweithredu a chyfrannu at ddatblygiad polisiau Frân Wen, yn arbennig polisiau sy'n ymwneud â diogelwch, amrywiaeth a hygyrchedd.
- Integreiddio ymarfer gwrth-wahaniaethol ym mhob agwedd o waith y cwmni a hyrwyddo cydraddoldeb wrth weithredu'r rhaglen ac mewn materion yn ymwneud â staff, llawryddion a gwirfoddolwyr.
- Cynrychioli Frân Wen mewn cyfarfodydd a grwpiau allanol sy'n berthnasol i gynhyrchu a theithio ar lefel lleol a chenedlaethol.

# TELERAU AC AMODAU

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Cynhyrchydd |
| **Yn atebol i:** | Cyfarwyddwr Gweithredol |
| **Cyflog:** | £30,000 - £35,000 (yn unol â phrofiad) |
| **Cytundeb:** | Cytundeb llawn amser, parhaol.<br>(Ystyrir ymrwymiad rhan-amser) |
| **Dyddiad cychwyn:** | Mor fuan â phosib. Os yn briodol, gellir dod i gytundeb ynglŷn â sut y gellir rheoli unrhyw waith sydd eisoes wedi ymrwymo iddo. |
| **Lleoliad gwaith:** | Frân Wen, Nyth, Ffordd Garth, Bangor, Gwynedd. LL57 2RW.<br>(Ystyrir cynllun gweithio hybrid) |
| **Oriau gwaith:** | 38 awr yr wythnos.<br><br>Oherwydd natur y gwaith, bydd angen gweithio oriau anghymdeithasol gyda'r hwyr ac ar benwythnosau. |
| **Gwyliau blynyddol:** | 25 diwrnod y flwyddyn yn cynyddu i 30 diwrnod y flwyddyn wedi 5 mlynedd o wasanaeth. Mae gwyliau statudol yn ychwanegol. |

| | |
|---|---|
| **Cyfnod prawf:** | Bydd y penodiad yn amodol ar gyfnod prawf llwyddiannus o chwe mis. |
| **Rhybudd i adael:** | 1 mis o rybudd yn ystod y cyfnod prawf a thri mis wedi hynny. |
| **Pensiwn:** | Cynllun pensiwn Cronfa Bensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Un o gynlluniau pensiwn gorau yn y wlad gyda chyfraniad cyflogwr o 18.5%. |
| **Buddion eraill:** | Cynllun Llesiant Staff.<br>Gweithio hyblyg.<br>Talebau gwarchod plant.<br>Tocynnau ar gyfer cynyrchiadau a digwyddiadau celfyddydol. |
| **Cofnod Troseddol:** | Mae'r swydd hon wedi ei heithrio o'r Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr (1974). Bydd y cyflogwr yn gwneud ymholiadau trwy'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd ynglŷn â gweithio gyda phlant, poblifanc neu bobl sy'n agored i niwed. |
| **Geirda:** | Bydd cynnig o gyflogaeth yn ddibynnol ar dderbyn geirda. |

*Mae'r swydd hon wedi ei gyllido'n rhannol gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.*

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Cyngor Gwynedd Council · Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council · Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales · Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government · ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

# Y BROSES YMGEISIO

Os am wneud cais, dylid cyflwyno'r wybodaeth isod:

- Llythyr cais neu fideo byr yn amlinellu addasrwydd a'r rheswm dros eich diddordeb yn y swydd.
- Rhowch ystyrieth i'r swydd ddisgrifiad a'r manyldeb personol gan nodi sut y gallwch chi wneud cyfraniad gwerthfawr i Frân Wen yn ystod cyfnod allweddol.
- Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal.
- CV gyfredol

Os hoffech sgwrs anffurfiol a chyfrinachol am y swydd neu angen gwybodaeth mewn fformat gwahanol cysylltwch â Nia Jones ar yr ebost isod neu drwy ffonio 01248 715048.

Anfonwch yr wybodaeth i sylw Nia Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol:

**Frân Wen, Nyth, Ffordd Garth, Bangor, Gwynedd, LL57 2RW**

neu ar e-bost at: **nia@franwen.com**

**DYDDIADAU ALLWEDDOL**

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau: | 11 Rhagfyr 2023 |
| Dyddiad cyfweliad: | 14 Rhagfyr 2023 |
| Cychwyn swydd: | Mor fuan â phosib wedi’r penodiad. |

# Y BROSES RECRIWTIO

Mae'r broses recriwtio yn cael ei arwain gan Fwrdd Rheoli Frân Wen mewn ymgynghoriaeth â Phanel Ymgynghorol Ifanc y cwmni.

Nid yw Frân Wen yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth neu wahaniaeth arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Bydd eich cais ac unrhyw wybodaeth bersonol cysylltiedig yn cael ei storio a'i brosesu yn unol â'n Polisi Data a'i ddinistrio ar ôl 6 mis. Os ydych yn cael eich penodi a'ch cyflogi gennym, bydd yr wybodaeth a gyflwynwch yn cael ei gadw'n ddiogel a bydd yn rhan o'ch cofnod cyflogaeth.




FRÂN WEN
FRANWEN.COM